Atodiad 4 – Ymateb Cyngor Gwynedd i'r Ymgynghoriad Statudol

**4. Hoffwn i/Rydym ni wneud sylwadau ar y canlynol. Dewiswch yr opsiwn(opsiynau) sydd fwyaf priodol:**

- ☐ Rwyf/Rydym ni'n cefnogi'r cynnig presennol ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd
- ☐ Rwyf/Rydym ni'n cefnogi egwyddor Parc Cenedlaethol ond yn awgrymu newid i'r ffin (rhowch fanylion isod)
- ☐ Rwyf/Rydym ni'n cefnogi egwyddor Parc Cenedlaethol yn amodol ar ymdrin â phwyntiau penodol neu eu hegluro'n briodol (rhowch fanylion isod)
- ☐ Rwyf/Rydym ni'n gwrthwynebu'r cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd
- ☑ Rwyf/Rydym ni'n dal heb benderfynu / ddim yn gwybod

Rhowch fanylion pellach yn ôl yr angen:

Nid oes digon o eglurder ar y faterion isod i Gyngor Gwynedd allu rhoi barn penodol ar y Parc Cenedlaethol Newydd:

Iaith Gymraeg

Mae'r ardal arfaethedig i'w chynnwys yn y Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-orllewin Cymru yn cynnwys rhannau o Wynedd sy'n cael eu cydnabod fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, lle mae'n cael ei defnyddio yn ddyddiol. Gallai ymgorffori'r cymunedau hyn mewn Awdurdod Cynllunio Lleol newydd sy'n cynnwys sawl awdurdod unedol - llawer ohonynt â lefelau is o ddefnydd y Gymraeg - beryglu gwanhau'r ffocws ar ystyriaethau Cymraeg mewn cynllunio a pholisi. Gallai hyn gael effaith negyddol ar statws yr iaith a'r defnydd bob dydd mewn ardal lle mae'n ffynnu ar hyn o bryd.

Er bod asesiad ar effaith yr iaith Gymraeg wedi ei gynnal nid yw'r Cyngor o'r farn bod modd lliniaru'r effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal arfaethedig sy'n disgyn o fewn ACLl Gwynedd.

Cynllunio

Yr unig sicrwydd sydd gennym ydy bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn Awdurdod Cynllunio Lleol.

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch pa fath o wasanaeth cynllunio fydd yn gweithredu yn y parc cenedlaethol newydd, felly nid ydym yn gallu bod yn sicr na fydd effaith negyddol ar y gwasanaethau cynllunio presennol.

O ran y CDLl, mae'n anghywir i CNC datgan yn ei hymateb i'r pryderon â godwyd eisoes gan Cyngor Gwynedd:

"...ystyried bod y risg i Awdurdodau Cynllunio Lleol o gefnu ar Gynlluniau Datblygu Lleol presennol, neu sy'n cael eu datblygu, yn isel yn enwedig ar gyfer ardaloedd sydd eisoes yn AHNE, ac felly mae'n annhebygol y bydd yn rhan bwysig o unrhyw Gynllun Datblygu Lleol"

Yr arweiniad a gawsom gan Is adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yw na ddylai unrhyw CDLl gynnwys rhannau o Awdurdod Cynllunio Lleol gwahanol.

Gall y ddisgwyl am y penderfyniad o ddynodi'r parc cenedlaethol newydd neu beidio cael effaith ar amserlen CDLl Gwynedd.

Cyllideb

Falch i dderbyn y llythyr gan y Dirprwy Gweinidog ond nid yw'n darparu sicrwydd.

Mae ymateb CNC yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd na fydd Awdurdodau Lleol dan anfantais ariannol ond chan nad yw Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer y parc cenedlaethol newydd, nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch o ble mae'r cyllid hwn yn dod.

Llywodraethu

Nid oes manylion ynglŷn â sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei Lywodraethu. Mae angen manylion ynglŷn ag os bydd y Cyngor yn cael ei chynrychioli neu yn cyfrannu ar yr Awdurdod?

Gan nad oes arweiniad cadarn wedi cael ei ddarparu ar y mater yma, er i ni godi'r mater yn ein hymateb ymgynghori blaenorol, felly mae hwn dal i barhau i fod yn fater heb ei ystyried.

Yr Ardal Ymgeisiol

Nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon â'r rheswm a roddwyd yn hymateb CNC am gynnwys rhan o Wynedd yn y Parc Cenedlaethol newydd.

Nodwyd fod yr ardal o Wynedd sydd wedi'i chynnwys o fewn ffiniau arfaethedig presennol Parc Cenedlaethol Glyndŵr ei nodi'n wreiddiol gan Hobhouse fel tir AHNE posibl i'w gynnwys yn Y Berwyn ac nid i'w gynnwys ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nid yw'n glir beth sydd wedi newid yn y tirwedd i'w gynnwys yn y parc cenedlaethol newydd.